COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Lun, Gorffennaf 27ain, 2015 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Wyn Griffiths, John E. Griffiths, Alun Jones, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Thelma Cordingley, Catherine Ll. Morris

ABSENNOL

Gwilym Hughes, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Simon Jones, Llangwnnadl.

1. **SGWRS GAN SIMON JONES AR GYNLLUN TAITH GERDDED DDIGIDOL**

Eglurodd yr hyn a fwriada'i wneud a'r hyn a wnaeth â thaith gyffelyb yn Nefyn y llynedd. Ychwanegodd y gallai ddechrau'r gwaith cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn sêl bendith y Cyngor heno – fe'i cefnogwyd. Dangosodd dri math o 'declynnau' a ellir eu defnyddio – gellir treilau rhwng 30-40 o'r blychau Bluetooth bach yn y gymuned i fod yn rhan o ap 'Culture Beacon' a grëwyd ar y cyd ar gyfer Casgliad y Werin, Y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfeydd. Pen draw hyn yw cais am arian Ewrop i ddangos ei fod yn rhywbeth masnachol. Diolchwyd iddo am roi o'i amser i ddod atom ac edrychir ymlaen at glywed oddi wrtho yn y dyfodol agos.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

3. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Fehefin 10fed, 2015 yn gywir.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C15/0246/39/LL Disgrifiad Newydd **–** Adeiladu pedwar tŷ preswyl â gwaith atodol yn cynnwys dull mynediad a thirlunio manwl (ail-leolir uned 13 o Ganiatâd C13/0736/39/LL â'r cais hwn ac, felly, y bwriad yn cynnwys tri ychwanegol), ynghyd â diwygiadau i gynnwys wal caergawell a pharcio llinellol – Manylion wal

	caergawell, parcio llinellol a thirlunio – Harbour Hotel, Aber-soch **– Derbyniwyd dyfarniad eisoes – Caniatawyd ag amodau**
C15/0575/39/LL	Addasiadau ac estyniadau i greu tŷ deulawr â gofod to gyda balconi blaen – Tarenig, Lôn Engan, Aber-soch **– Cefnogi**
C15/0616/39/LL	Dymchwel tŷ gwesty presennol a chodi un annedd yn ei le – Carisbrooke, Aber-soch **– Cefnogi, ond gwrthwynebai un aelod oherwydd teimla y dinistrir etifeddiaeth Aber-soch i genedlaethau'r dyfodol â'r holl ddymchwel a chodi tai o'r newydd a ddigwydd yn ddiweddar**
C15/0617/39/LL	Cais ar gyfer dymchwel estyniadau ac adeilad allanol presennol, ynghyd â chodi estyniad i'r eiddo presennol a chodi tŷ newydd – Deucoch Hotel, Aber-soch **– Tynnwyd y cais yn ôl**
C15/0664/39/LL	Adeiladu estyniad unllawr at ochr dde yr eiddo – Ger y Traeth, Bwlchtocyn **– Cefnogi**
C15/0666/39/CC	Tocio neu dorri coeden – Haulfryn Cottage, Aber-soch **– Cefnogir tocio o fewn rheswm a than oruchwyliaeth; yr un sylwadau a roddwyd ar gais C14/0212/39/CC y llynedd**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Derbyniwyd anfoneb y contractwr (£1272.00) am y gisyr, blychau a goriadau mynediad i'r glanhawr ac atgyweirio'r paneli allanol a fandaleiddiwyd (gweler 11. Taliadau a Derbyniadau isod) – cafwyd sylw da i'r fandaleiddio yn y *Cambrian News*. Adroddwyd fod y drychau (toiledau'r dynion a'r anabl) wedi rhyddhau ac ni osodwyd hwy'n ôl.
- Derbyniwyd £1216.60 o arian mynediad ers mis Ebrill – £749.20 ers cyfarfod mis Mehefin.
- ***Arwydd*** – fe'i gosodwyd ar dalcen y toiledau erbyn hyn, gan nad oedd yn gorwedd yn iawn uwchben y drysau. Derbyniwyd anfoneb am £110.00 (gweler 11. Taliadau a Derbyniadau isod).
- Penderfynwyd peidio ag ymgeisio am Wobr Toiled y Flwyddyn 2015.
- Disgwylir peirianydd Nwy Prydain i osod mesurydd newydd yn ystod ail wythnos mis Awst er y gofynnwyd am wneud cyn y gwyliau.

b) **Biniau Baw Cŵn**

- Gosodwyd y postyn ym maes parcio Mynydd Cilan, ond ni chafwyd cyfle i osod y bin ei hun eto.
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth berchennog maes carafannau Pant Gwyn yn gofyn a fyddai modd gosod biniau baw cŵn ger tro Fferm Pant Gwyn a Rhianfa, gan fod cymaint o fagiau'n cael eu gadael yn y cloddiau a'r coed; penderfynwyd peidio, gan fod dau yna'n barod ac awgrymu'n garedig y gallai brynu a gosod un ei hun ar ei faes carafannau fel gwnaeth ambell berchennog arall.
- O'r diwedd, derbyniwyd ymateb i'r ymholiad am finiau Cae Chwarae Aber-soch – awgrymwyd gosod un rhwng safle'r un a fandaleiddiwyd a'r offer sglefrfyrddio (ac a fuasai'n lleihau costau gwagio i'r Cyngor), sef

nepell o waelod y llwybr mynediad yn hytrach na chael dau; cytunwyd â'r awgrym ac fe'i gosodir o fewn y dyddiau nesaf.

c) **Swydd a Chytundeb Gwaith y Clerc**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Rheolydd Pensiynau yn nodi bod y gyfraith ar bensiynau yn y gweithle wedi newid a bod rhaid i bob cyflogwr sydd ag o leiaf un aelod o staff gofrestru ar gyfer cynllun pensiwn yn y gweithle yn awtomatig a chyfrannu ato cyn Gorffennaf 31ain – dyddiad gweithredu yw Awst 1af, 2017; penderfynwyd gofyn i'r cyfrifydd ddelio ag o.

ch) **Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Merfyn Pugh parthed y cytundeb.
Derbyniwyd ad-daliad torri'r Foel a Llain y Pentref (gweler 11. Taliadau a Derbyniadau isod) oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru, ond ni dderbyniwyd anfoneb y contractwr.

d) **Gwefan y Cyngor**
Adeiladwyd drafft o'r wefan a, hyd y gwelir, mae'n unol â'r hyn a gytunwyd ar ffurf y tudalennau. Gobeithir y bydd yr wybodaeth angenrheidiol ar y tudalennau erbyn cyfarfod mis Medi – mae cryn dipyn o waith cywain.

dd) **Cae Chwarae Aber-soch**
Cwblhawyd gosod y ffens a'r giât newydd, ynghyd ag atgyweirio ychydig ar ffens a giât Cae Chwarae Mynytho – derbyniwyd yr anfonebau (gweler 11. Taliadau a Derbyniadau isod). Derbyniwyd amcanbris, o ran cywreinrwydd, am ffens yr un fath ar ochr Lôn Engan – rhwng £3,400 a £4,000.

e) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

f) **Meddygfa Aber-soch**
Nododd Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, y deil y Feddygfa a'r Bwrdd Iechyd Lleol asesu nifer o safleoedd yn Aber-soch.

ff) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'**
- Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth y cwmni datblygu.
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Frank Pilling yn gofyn a ellid dechrau ar y gwaith o barhau'r llwybr at lan yr afon – fe'i atebwyd bod ceisio nawdd ac ati ar gyfer cynllun o'r fath yn cymryd amser.
- Derbyniwyd gwybodaeth am Nawdd Cystadleuol 2016 Cyfoeth Naturiol Cymru ond, o gysylltu a holi ymhellach, ni fuasai'r cynllun yn gymwys iddo ac awgrymwyd Graddfa Fach Cyllid Prosiectau Llywodraeth Cymru a fuasai'n cyfrannu hyd at £15,000; penderfynwyd ymgeisio amdano – dyddiad cau Medi 11eg – gan nad oes dim i'w golli o wneud.

g) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Ni lwyddwyd anfon cwyn eto am y diffyg parch i'r Gymraeg.

ng) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Hysbysodd perchennog 23 Maes Awel ei fod yn ôl o Ffrainc a chafwyd copi o gynllun ei eiddo gan y Gofrestra Tir – fe'i anfonir at Gyfreithiwr y Cyngor, ynghyd â gofyn iddo weithredu i gofrestru 20 Maes Awel hefyd.

h) **Canllawiau ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Cyfieithu**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth swyddfa Comisiynydd yr Iaith am anfodlonrwydd ag ateb Uned Gwynion Ganolog, Llywodraeth Cymru parthed yr uchod.

i) **Gohebiaeth d) John D. Roberts – Archwilio Cyfrifon 2014 – 2015/Hacker Young**
Derbyniwyd ymholiadau i wirio un neu ddau o bwyntiau ar y ffurflen oddi wrth Hacker Young – fe'u hatebwyd.

l) **Gwasanaeth Cynllunio – Bryn Cethin Bach, Aber-soch**
Ymddiheurodd Elfyn Williams, Uwch Swyddog Gorfodaeth, am yr oedi ond, ni dderbyniodd ateb i'r llythyr a anfonodd at berchnogion yr uchod.

ll) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Mynychodd y Cadeirydd a'r Clerc y cyfarfod yng Nghlwb Rygbi Pwllheli, Bodegroes – mae amseroedd caled a dyrys o'n blaenau; ategodd Cyng. Wyn Williams hynny hefyd, ynghyd ag ychwanegu y ceisir trefnu cyfarfod yn Neuadd Aber-soch yn yr Hydref i'w drafod. Awgrymodd Prif Weithredwr y Cyngor y dylai Cynghorau Cymuned/Tref gynyddu'r praesept yn barod at gynnal gwasanaeth(-au) ac y gellid ei ostwng y flwyddyn ariannol ddilynol pe na ddigwyddai.

m) **Llythyr Ymddiswyddiad**
Ni dderbyniwyd Rhybudd o Sedd Wag Achlysurol oddi wrth y Swyddog Canlyniadau er cysylltu eto yr wythnos diwethaf.

n) **Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant am Ddim yng Nghaernarfon**
Aildrefnwyd y gweithdy hyfforddiant am ddim i Gynghorwyr Cymuned a Thref (a chroesewir Clercod) yng Nghaernarfon o heno i Fedi 23ain gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth Cyngor Gwynedd; y Clerc am fynychu.

o) **Cyng. Wyn Williams – Banc NatWest**
Deil pryder am y cau ond, ofer yw'r cwyno ac anghytunir â'r niferoedd a nodir sy'n defnyddio'r banc. Adroddoddwyd yr ymwela'r banc symudol bob pnawn Iau ac fe'i lleolir ym maes parcio'r Neuadd dros y gaeaf.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Parcio ym Mhorth Neigwl – *Llinellau Gwyn Igam Ogam***
- Derbyniwyd ateb oddi wrth Iwan ap Trefor, Peiriannydd Traffig, yn cynnig cyfarfod ar y safle i'w trafod – angen trefnu dyddiad.
- Hysbyswyd na fydd unrhyw newidiadau i'r drefn yn y maes parcio, sef peidio â chodi tâl.

b) **Rhaglen Waith mis Gorffennaf**
Gwaith llenwi tyllau dros dro ar Gilffordd 38 Golff, Aber-soch. Adroddodd Cyng. Wyn Williams y gohiriwyd hyn tan fis Medi.

c) **Ffens ger Isfryn, Mynytho**
Anfonwyd copïau o gynlluniau Y Gofrestra Tir at Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ond ni dderbyniwyd ymateb.

7. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Arwydd Mynyddoedd Eryri ar y Llwybr Arfordir ger Cim***
Ni lwyddwyd gwneud dim â'r wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Shropshire.

b) ***Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
Cwblhawyd hwn erbyn hyn, ond ni dderbyniwyd dyddiad ei ailagor eto. Derbyniwyd cais am gadarnhad y tynnodd y Cyngor ei wrthwynebiad i'r cais cynllunio oddi wrth Elfyn Williams, Uwch Swyddog Gorfodaeth – cadarnhawyd eisoes.

c) ***Taith Gerdded Ddigidol***
Gweler cofnod 1. Sgwrs gan Seimon Jones uchod.

ch) ***Shanty, Pen Bennar***
Ni thrafodwyd yr awgrymiadau â pherchennog y tir.

d) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach parthed ailagor hwn.

dd) ***Torri'r Llwybrau***
Derbyniwyd cwynion nad yw nifer o'r llwybrau wedi'u torri – methwyd â chysylltu â'r contractwr i holi pa rai a wnaeth hyd yma a faint sy'n weddill.

8. **ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG/ARIANNOL A PHOLISÏAU**

Gohiriwyd tan fis Medi.

9. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Strategaeth Hyfforddiant i Gymru***
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.
ii) ***Cynhadledd Un Llais Cymru***
Hysbyseb o'r uchod a gynhelir ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid, ddydd Sadwrn, Hydref 3ydd.
iii) ***Bil Casglu a Rheoli Trethi***
Taflen eglurhaol am yr uchod.
iv) ***Neges gan Fwrdd Iechyd Gogledd Cymru***

Hysbyseb am ystod o ddigwyddiadau i gefnogi rhaglen eang ceisio barn pobl gogledd Cymru ar iechyd a gwasanaethau iechyd yn yr ardal.

v) ***Nodyn Cefndir gan NALC ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 (Cymru'n Unig)***
Taflen yn nodi dyletswyddau newydd Cynghorau Cymuned a Thref i gyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

vi) ***Arolwg ar gyfer Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol***
Arolwg electronaidd o lwfansau a threuliau aelodau – dyddiad cau Awst 17eg.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – Darparu Toiledau sydd ar gael i'r Cyhoedd eu Defnyddio***
Gwybodaeth am yr uchod.

ii) ***Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2015***
Llythyr a chanllawiau statudol yr uchod a ddaw i rym ar Hydref 1af.

c) **Oedolion, Iechyd a Llesiant – Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd**
Llythyr yn hysbysu'r amseroedd newydd.

ch) **Cylch yr Iaith – Cynllun Adnau – Dogfen Sylwadau**
Cais i Gynghorau Cymuned/Tref ymateb i'r ddogfen sylwadau a'r gofynion a grëwyd gan y pedwar mudiad sy'n amlygu nifer fawr o ddiffygion difrifol yn y modd yr aseswyd y Cynllun o ran ei effaith ar y Gymraeg. Gofynnwyd pam yr anfonwyd yr ymateb ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad ac atebwyd mai rŵan mae'r Uned Polisi Datblygu ar y Cyd yn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd ac y buasai cefnogaeth cynghorau yn cryfhau eu cais i gywiro'r diffygion. Atebwyd drwy ddweud y tynnwyd sylw at yr effaith ar yr iaith yn y gymuned hon wrth gyflwyno'r sylwadau'r Cyngor. Mynegodd Clerc Cyngor Tref Pwllheli os bydd Gwynedd angen ymateb pellach i'w sylwadau mae'n sicr o gysylltu â'r cynghorau.

d) **Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig**
Copi o gais a dderbyniodd trwy e-bost i osod stondin gwneud gwalltiau/plethi ar Borth Fawr am tua tridiau ddechrau mis Awst, ynghyd â'i ateb yn gwrthod oherwydd bod busnesau cyffelyb yn yr ardal eisoes. Noda, hefyd, y cysylltai eto pe bai'r Aelod Lleol a'r Cyngor hwn o farn gwahanol; penderfynwyd gwrthwynebu'r cais.

dd) **Gwynedd Ni – Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd**
Gellir hysbysebu unrhyw ddigwyddiad a gynhalia Cynghorau Cymuned/Tref ar wefan Gwynedd Ni i hysbysu teuluoedd.

e) **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Adroddiad Blynyddol 2014-2015**

Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.

f) **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol**
Cais am wybodaeth gan unrhyw un sydd â phryderon am ansawdd y gofal a ddarperir gan y Gwasaneth Iechyd yng Ngogledd Cymru.

ff) **Cyngor Tref Cricieth – Gwrthwynebiad i Gais Cynllunio**
Sylweddolodd y Cyngor Tref y cyfrifir gwrthwynebiad Cynghorau Cymuned i gais cynllunio fel un a bod angen o leiaf dri gwrthwynebiad cyn i gais gael ei gyflwyno i bwyllgor i wneud penderfyniad arno. Gofynna am gefnogaeth i farn y dylai unrhyw wrthwynebiad gan gorff statudol gael ei benderfynu arno yn ddemocrataidd gan Bwyllgor Cynllunio Gwynedd yn hytrach na rhoi hawl i swyddog unigol wneud hynny. Wrth anfon y neges ar ran Glerc Cricieth (Cadeirydd Cangen Gwynedd o Gymdeithas y Clercod), mynega Katherine Owen (Clerc Caernarfon) y dealla/ derbynia mwy nag un gwrthwynebiad gan aelodau'r cyhoedd ond, y dylai gwrthwynebiad gan unrhyw gorff statudol fod yn ddigon o reswm galw cais i mewn.

g) **Came & Company – Yswiriant 2015 – 2016**
Derbyniwyd premiwm adnewyddu yswiriant y Cyngor – £1988.20 yn cynnwys treth premiwm yswiriant 6%. Daw'r cytundeb hir dymor i ben ar Fedi 14eg, 2016 ac os ymestynnir hyd at Fedi 14eg, 2018 gellir lleihau'r pris o 5% i £1888.79. Penderfynwyd peidio â'i ymestyn er mwyn cymharu â chwmnïau eraill yn dilyn derbyn gohebiaeth ganddynt.

10. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C12/0581/39/TC	Defnyddio tir amaethyddol o Fawrth 1af at Hydref 31ain ar gyfer gwersylla â phebyll a charafannau teithiol – Nant-y-Big, Cilan – **Caniatawyd Tystysgrif Cyfreithlon yn unig**
C15/0266/39/LL	Dymchwel porth car to fflat presennol ac adeiladu estyniad to brig yn ei le, adeiladu porth a dwy ffenestr gromen at yr edrychiad blaen, adeiladu estyniad to brig a ffenestr grom to fflat at yr edrychiad cefn – Pen y Cae, 6 Maes Awel, Aber-soch **– Gwrthod**
C15/0354/39/LL	Cais i godi modurdy yn cynnwys lifft integrol – The Anchorage, Pen Bennar, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0373/39/LL	Estyniadau deulawr cefn ac ochr yn cynnwys balconi ac ymestyn adeilad allanol – Cartref, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0382/39/LL	Adeiladu talcen at edrychiad blaen i greu ystafell ymolchi *en-suite* llawr cyntaf – 9 Stád Sant Tudwal, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0398/39/LL	Adnewyddu caniatâd cynllunio C10D/0063/39/LL ar gyfer estyniadau llawr cyntaf ac unllawr cefn – Crow's Nest, 156 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0448/39/LL	Cadw anecs a phorth blaen y tŷ fel yr adeiladwyd – Tan y Bwlch, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**

C15/0449/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd 34/64/570G er mwyn defnyddio'r sialetau ar gyfer gwyliau trwy'r flwyddyn – 1-12 Braich, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0484/39/LL	Estyniad to dormer i'r cefn, ynghyd ag addasiadau eraill i'r cefn yn cynnwys amnewid canopi gwydr – Tanllech Uchaf, Cilan – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0468/39/LL	Dyluniad diwygiedig i dŷ a ganiatawyd gan ganiatâd llawn Rhif C13/1098/39/LL yn ddyluniad diwygiedig blaen a wal ochr – The Anchorage, Pen Bennar, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0492/39/LL	Defnyddio tir fel safle carafán wedi ei gyfyngu unai i un garafán sefydlog neu deithiol – Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch – **Gwrthod**
C15/0537/39/LL	Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd ac ardal ddecio cysylltiedig – Cwt Glan y Môr Rhif 15, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0555/39/DA	Cais am ddiwygiad di-faterol i gais a ganiatawyd dan gyfeirnod C13/0736/39/LL ar gyfer tynnu balconïau ar lefel trydydd llawr i'r cefn o dai 9, 10, 11 a 12 ac ychwanegu nenoleaudau at gefn yr un tai – Cyn-safle The Harbour Hotel, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

C15/0617/39/LL	Cais ar gyfer dymchwel estyniadau ac adeilad allanol presennol, ynghyd â chodi estyniad i'r eiddo presennol a chodi tŷ newydd – **Deucoch Hotel, Aber-soch**

11. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog misoedd Gorffennaf ac Awst, ynghyd â chostau gweinyddol (Ionawr – Awst) y Clerc (Rh/S 001918, 001923 ac 001924), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Ffensio Llŷn – £3030.00 (Rh/S 001915 – Ffens a Giât Cae Chwarae Aber-soch)
b) Griffith, Williams & Co. – £84.18 (Rh/S 001916 – Costau Chwarter Gweinyddu Cyflog y Clerc)
c) Dŵr Cymru – £261.48 (Rh/S 001917 – Cyflenwad Dŵr a Gwasanaeth Carthffosiaeth y Toiledau)
ch) Casglwr Trethi/Cyllid a Thollau EM – £1784.24 (Rh/S 001919 – Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y Clerc)
d) Ffensio Llŷn – £276.00 (Rh/S 001920 – Atgyweirio Ffens Cae Chwarae Mynytho)
dd) Llechen Llŷn – £110.00 (Rh/S 001921 – Plac Llechen y Toiledau a'i osod)
e) E.W. Griffiths Cyf. – £1272.00 (Rh/S 001922 – Atgyweirio'r Toiledau)
f) Came & Company – £1988.20 (Rh/S 001926 – Yswiriant 2015-2016)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £749.20
b) Cyfoeth Naturiol Cymru – £4601.41 (Ad-daliad Torri'r Foel a Llain y Phentref)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Medi 9fed, 2015 am saith o'r gloch